

**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A
GYNHALIWDYD AM 9:30AM AR 27 GORFFENAF 2021 YN NHŶ HASTINGS A
THRWY 'TEAMS'**

Yn bresennol: Mrs Debra Evans-Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell a Mrs Julie May.

Swyddogion CFfDLC yn bresennol: Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Rhydian Fitter (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu); Mrs Catherine Thomas (Swyddog Cymorth Busnes); Miss Carys Vaughan (Swyddog Cymorth Tîm).

Amser Dechrau: 09:30

Amser Gorffen: 10:30

Ymddiheuriadau: Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau.

1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

2. Briff y Cadeirydd

2.1. Rhoddwyd briff gan y Cadeirydd i'r Comisiwn ar y cyfarfod cynharach â Lisa James o Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru (LIC):

- Mae Gweinidogion wedi gwneud 9 penderfyniad hyd yma, gyda mân newidiadau i enwau Cymraeg.
- **Nodwyd** nad yw'r Comisiwn wedi gweld yr adroddiad ar benderfyniad ar gyfer Ceredigion. Bydd y Prif Weithredwr yn codi hyn â Lisa James yn y cyfarfod misol nesaf.
- Mae gan y Gweinidog ddiddordeb mewn cwblhau Adolygiad ar y Cyd o'r Gwersi a Ddysgwyd o'r broses arolygu. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn.
- Hysbyswyd y Comisiwn y gallai fod oedi posibl i rai Gorchmynion ac y bydd penderfyniadau'n ymestyn i fis Hydref. Mae trafodaethau mewnol yn parhau o fewn Llywodraeth Cymru ar sut i reoli hyn a bydd swyddogion yn cyfarfod â'r Gweinidog ganol mis Awst.
- Hefyd, trafodwyd recriwtio Comisiynwyr newydd yn ogystal â'r amserlenni ar gyfer penodiadau.

3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2021

- 3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2021 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau.

4. Materion yn Codi

- 4.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 20 Gorffennaf 2021 gan y Prif Weithredwr.

- 4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:

- **(Mater 1) Rhaglen Newid**

Cynhaliwyd y sesiwn Hyfforddiant Insight gyntaf yn llwyddiannus ar 12 Gorffennaf. Bu pob aelod staff yn cymryd rhan yn y sesiwn ac maent wedi derbyn eu proffiliau personol. Mae'r ail sesiwn wedi'i threfnu ar gyfer 28 Gorffennaf a bydd yn canolbwyntio ar ddeinameg tîm a staff yn rhannu elfennau o'u proffiliau personol.

Bydd Un Llais Cymru yn cyflwyno sesiwn dosbarth meistr ar 24 Medi. Mae'r holl aelodau staff a Chomisiynwyr wedi cael gwahoddiad i'r sesiwn ar-lein.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Busnes wedi bod mewn cyfarfodydd cychwynnol ag Acuity mewn perthynas â'r rhaglen ailstrwythuro.

- **(Mater 2) Cytundeb Fframwaith**

Ni fu unrhyw gynnydd ar y Cytundeb Fframwaith. Mae Lisa James wedi hysbysu'r Comisiwn bod yr Uned Cyrff Cyhoeddus wedi anfon gwybodaeth am lythyrau Cylch Gwaith Pum Mlynedd. Mae'r Comisiwn wedi hysbysu Lisa James nad yw wedi derbyn unrhyw beth gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus ac wedi gofyn iddi ymchwilio i hyn.

Nodwyd ei bod yn bwysig i'r Cytundeb Fframwaith gael ei sefydlu â LIC cyn i'r Comisiwn sefydlu trafodaeth ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiwn, y Comisiwn Ffiniau i Gymru, LIC a Swyddfa'r Cabinet.

Gweithredu: Y Prif Weithredwr i gysylltu'n uniongyrchol â LIC ynghylch bwrw ymlaen â'r Cytundeb Fframwaith.

- **(Mater 3) Arolwg Etholiadol – Diweddariad ar Orchmynion**

Mae gweinidogion wedi penderfynu ar yr argymhellion ar gyfer Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Powys a Wrecsam, ac wedi'u cyhoeddi. Gwnaed penderfyniad yn flaenrol ar Geredigion ond nid yw wedi'i wneud yn gyhoeddus. Bydd y Prif

Weithredwr yn gofyn i Lisa James a yw Prif Weithredwr Ceredigion wedi cael gwybod am y penderfyniad.

Gweithredu: Y Prif Weithredwr i gysylltu â LIC ynghylch Ceredigion.

- **(Mater 4) Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth**

Mae'r Comisiwn wedi ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth gan y Cynghorydd Watts mewn perthynas ag Arolwg Etholiadol Sir Fynwy. Derbyniodd y Comisiwn un cais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 23 Mehefin 2021 a 20 Gorffennaf 2021. Daw'r cais Rhyddid Gwybodaeth hwn oddi wrth Gynghorydd Tref yn Sir Gaerfyrddin ac mae'n ymwneud â ward y mae'r Comisiwn wedi'i hargymell. Mae Cher Cooke yn ymdrin â'r cais ar hyn o bryd.

Wrth i'r Gweinidog wneud penderfyniadau, **nodwyd** y bydd y Comisiwn yn derbyn rhagor o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

5. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

- 5.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 20 Gorffennaf 2021 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.
- 5.2. **Nodwyd** bod yr amserlen wedi'i diweddarau i adlewyrchu'r 6 phenderfyniad a wnaed gan LIC. **Amlygwyd** y bydd y penderfyniadau a wnaed yn ddiweddar yn cael eu cynnwys ym mhapurau'r cyfarfod nesaf.
- 5.3. **Nodwyd** y bydd yr amserlen yn fuddiol mewn trafodaethau â LIC ar gyfer yr Arolwg Etholiadol nesaf. Bydd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn defnyddio'r amserlen wrth gwrdd â Lisa James ac Elaina Chamberlain i drafod Gwersi a Ddysgwyd.

6. Adroddiad ar Gyllideb 2021-22

- 6.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig mis Gorffennaf 2021 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** y sefyllfa gyllidebol gyfredol ar gyfer 2021-22.
- 6.2. **Nodwyd** bod gan y Comisiwn danwariant o £35,310 ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Y tanwariant mwyaf oedd £10,013 mewn Costau Staff. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod un aelod staff yn gadael yn gynnar, ac oherwydd bod y Comisiwn wedi goramcangyfrif y gyllideb staff.
- 6.3. **Nodwyd** bod tanwariant o £3,244 ar gyfer Ffioedd Aelodau CFfDLC. Mae hyn oherwydd na fu cyfarfod ym mis Mai ac mae hawliadau heb eu casglu ar gyfer mis Mehefin. Hefyd, roedd tanwariant o £5,108 ar gyfer Ffioedd Aelodau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru . Mae hyn oherwydd na fu cyfarfod

ym mis Mai ac mae hawliadau heb eu casglu ar gyfer mis Mehefin. Yn ogystal, roedd tanwariant o £2,490 ar gyfer treuliau Aelodau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru oherwydd bod pob cyfarfod wedi'i gynnal ar-lein.

- 6.4. **Nodwyd** hefyd bod tanwariant o £5,658 ar gyfer Hyfforddiant Staff. Fodd bynnag, bydd anfoneb ar gyfer Hyfforddiant Insights o tua £3,500 a fydd yn lleihau'r tanwariant yn sylweddol.
- 6.5. **Nodwyd** y gallai fod yn rhaid i'r Comisiwn gyflogi staff ychwanegol pan fydd Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi. Hefyd, bydd rhywfaint o'r tanwariant yn cael ei wario ar ymchwil ychwanegol ar gyfer y gwaith adolygu. Bydd y Comisiwn yn monitro anghenion busnes ac yn penderfynu yn nes at yr amser.

7. Rheoli Risg – y Gofrestr Risg

- 7.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 14 Gorffennaf 2021 gan y Rheolwr Cyllid.
- 7.2. **Nodwyd** bod yr holl newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod blaenorol wedi'u gweithredu.
- 7.3. **Cytunwyd** y dylid dileu risg CR2 o'r Radar Risg gan fod y risg hon wedi'i dileu o'r gofrestr.
- 7.4. **Cytunwyd** y dylid ychwanegu cam lliniaru at CR3 i adlewyrchu bod trefniadau ar waith gan y Comisiwn i ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar argymhellion yr arolwg etholiadol gorffenedig.
- 7.5. **Cytunwyd** y dylid gostwng y sgôr risg tebygolrwydd gweddilliol ar gyfer CR4 o 4 i 2 gan roi sgôr risg weddilliol gyffredinol o 6.
- 7.6. **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i ddiweddarau'r Gofrestr Risg â'r diwygiadau y cytunwyd arnynt.

8. Datganiad Polisi Cyflogau Blynyddol 2020-21

- 8.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 14 Gorffennaf 2021 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** ei gynnwys.
- 8.2. **Nodwyd** bod y Datganiad Polisi Cyflogau Blynyddol yn ymwneud ag aelodau staff yn unig. Mae nifer y Comisiynwyr a'u tâl wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol.

- 8.3. **Gweithredu:** Y Rheolwr Cyllid i ddarganfod pa sefydliad a gyhoeddodd y templed ar gyfer yr Adroddiad Polisi Cyflogau Blynyddol a gwirio a oes fersiwn mwy diweddar ar gael.

9. Trefniadau Parhad Busnes Cyfredol (Diweddariad Llafar)

- 9.1. Wrth i gyfyngiadau lacio ym mis Awst, bydd y Comisiwn yn mabwysiadu agwedd hyblyg tuag at staff sy'n gweithio yn y swyddfa, gan gadw at ganllawiau lechyd y Cyhoedd. Mae'r Prif Weithredwr wedi gofyn i Reolwyr draford yr oriau swyddfa a ffefrir gydag aelodau staff ac mae staff wedi cael gwybod y bydd angen iddynt fod yn y swyddfa yn amlach o fis Medi ymlaen, pan fydd Cynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cael eu cyhoeddi. Bydd staff yn parhau i weithio gartref ar ddydd Gwener oni bai bod angen am resymau busnes i staff fod yn y swyddfa.

10. Calendr Digwyddiadau

- 10.1. **Nodwyd** y Calendr gan y Comisiwn.
- 10.2. **Nodwyd** y dylid ychwanegu'r Sesiwn Dosbarth Meistr gydag Un Llais Cymru ar 24 Medi at y Calendr.
- 10.3. **Cytunwyd** y bydd Cyfarfodydd CFfDLC yn cael eu cynnal ar ddydd Mawrth olaf y mis o fis Medi ymlaen. Bydd y Calendr Digwyddiadau yn cael ei ddiweddarau yn unol â hynny.
- 10.4. **Gweithredu:** Y Swyddog Cymorth Tîm i ddiweddarau'r Calendr digwyddiadau â'r newidiadau y cytunwyd arnynt.

11. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

- 11.1. **Nodwyd** y bydd angen i'r Comisiwn recriwtio Comisiynydd newydd i gymryd lle Theo Joloza. Codwyd hyn hefyd â Lisa James, a bydd trafodaeth bellach ar recriwtio yn digwydd ar ôl y cyfarfod.

12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 28 Medi 2021